



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn Archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 327A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn

swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar fy rhan gan dîm a oedd yn cynnwys Elaine Matthews, Barrie Morris, Grace Hawkins a Dave Thomas.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	7
Adran 1: archwilio cyfrifon	8
Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd lechyd ac wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau at un mater allweddol a nifer o faterion llai	8
Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	9
Mae gan y Bwrdd lechyd record resymol o gyflawni arbedion cyson, mae wedi cryfhau trefniadau monitro ac wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol i fantoli'r gyllideb am y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17	10
Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a llywodraethu yn gyffredinol gadarn a gwneir gwaith pellach i gefnogi cydnerthedd y sefydliad a chryfhau llywodraethu gwybodaeth	13
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau y defnyddir adnoddau'n well mewn nifer o wasanaethau allweddol a ddarperir gan y Bwrdd lechyd neu a gomisiynir gan ddarparwyr eraill	20
Atodiadau	
Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	26
Atodiad 2 – ffi archwilio	27
Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol	28

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd gennyf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Mae'r gwaith hwnnw wedi'i wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon y Bwrdd Iechyd a'i drefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 2 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol ac ar y risgiau ariannol a gweithredol arwyddocaol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn â swyddogion a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
- 3 Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau ar 18 Ionawr 2018. Caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn daer i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: archwilio cyfrifon

- 5 Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamedod ar ddatganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau at nifer o faterion. Roedd y mater allweddol yn ymwneud â dychwelyd rhwymedigaethau o'r gorffennol.
- 6 Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi yn briodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd o bwys.
- 7 Nid oedd fy ngwaith wedi nodi gwendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.
- 8 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb am y tair blynedd yn diweddu yn 2016-17, felly, cyflawnodd ei ddyletswydd ariannol bennaf. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn [Adran 2](#) o'r adroddiad hwn.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 9 Rwyf wedi adolygu cynlluniau ariannol a threfniadau rheoli'r Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethau a sicrhau, a'r cynnydd a wnaed o ran y materion i'w gwella a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hynny i'm bodloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiadau Archwilio Perfformiad ar feysydd cyflenwi gwasanaethau penodol. Ar sail y gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliadau isod.

Mae gan y Bwrdd record resymol o gyflawni arbedion cyson, mae wedi cryfhau trefniadau monitro ac wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol i fantoli'r gyllideb am y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17

- 10 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu cynlluniau ariannol cytbwys, wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r cynlluniau arbed a nodwyd ganddo, ac mae'n debygol o gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2017-18.
- 11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'i ddull o gynllunio a chyflawni cynlluniau arbed ac mae'n cydnabod y bydd angen i arbedion gael eu seilio ar weddnewid gwasanaethau yn fwy strategol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol yn y dyfodol.
- 12 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'i system ar gyfer monitro arbedion ariannol yn effeithiol a bydd honno'n cael ei phrofi wrth i'r gwaith o gynllunio arbedion yn y dyfodol ddod yn fwy uchelgeisiol.
- 13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion blaenorol ynghylch cynlluniau ac adroddiadau ariannol.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a llywodraethu yn gyffredinol gadarn a gwneir gwaith pellach i gefnogi cydnerthedd y sefydliad a chryfhau llywodraethu gwybodaeth

- 14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo cynllun tymor canolig integredig, yn unol â gofynion statudol Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae hefyd wedi cytuno ar Strategaeth Iechyd a Gofal hirdymor gyda Chyngor Sir Powys, er bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r cynlluniau sy'n sail iddi. Ar ben hynny, dangosodd fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:
- fod gan y Bwrdd a'r pwyllgorau gylchoedd gorchwyl clir a bod yr aelodau'n cyfrannu'n weithredol iddynt;
 - bod gwaith yn parhau i gryfhau cydnerthedd a gallu'r sefydliad;
 - bod y Bwrdd wedi cymeradwyo fframwaith sicrwydd a rheoli risg, sy'n cael ei wreiddio bellach ar draws y sefydliad;
 - bod llywodraethu gwybodaeth yn faes risg, o ystyried yr adnoddau staff cyfyngedig a'r angen i roi Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE ar waith;
 - bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a'r gwasanaethau a gomisiynir;

- bod gwaith wedi dechrau i nodi'r elfennau yng nghynlluniau cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n ymwneud â'r gweithlu, ac mae craffu systematig ar drefniadau rheoli'r gweithlu wedi arwain at welliannau yn rhai o fetrigau'r gweithlu;
- nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r Fenter Twyll Cenedlaethol (NFI) yn effeithiol i ganfod twyll a gordaliadau;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad strwythuredig y llynedd.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau y defnyddir adnoddau yn well mewn nifer o wasanaethau allweddol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd neu a gomisiynir gan ddarparwyr eraill

- 15 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhoi sylw i'r risgiau sy'n cyd-fynd â'i drefniadau cymhleth ar gyfer sicrhau gwasanaethau dan arweiniad meddygon ymgynghorol, er bod rhagor o waith i'w wneud i sicrhau trefniadau contractio a chynllunio swyddi cadarn ar gyfer pob meddyg ymgynghorol sy'n gweithio gyda chleifion y Bwrdd.
- 16 Mae'r gwasanaethau radiograffeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn foddhaol yn gyffredinol, er bod heriau o ganlyniad i absenoldeb hirdymor pennaeth gwasanaeth a seilwaith TG bregus, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rheoli perfformiad.
- 17 Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn gadarn ar y cyfan, ac mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod cleifion yn cael apwyntiadau prydlon. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau yn gysylltiedig â data perfformiad ac mae lle i wella cynlluniau strategol a chynlluniau'r gweithlu er mwyn ymdrin â risgiau sy'n bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth.
- 18 Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn bwriadu gwella cynlluniau i ryddhau cleifion mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, ond mae'r hyfforddiant i'r staff yn wael, ceir cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad ac mae diffyg llwybrau ffurfiol i ryddhau cleifion yn rhwystro gwelliant.
- 19 Mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i wneud rhai newidiadau pwysig i wasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid wrth i'r trefniadau aeddfedu.
- 20 Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.
- 21 Carem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 22 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Tachwedd 2017.
- 23 Ymglymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004¹. Mae'r ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
 - fy modloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddo ddefnyddio adnoddau.
- 24 O ran (c), rwyf wedi ceisio sicrwydd, neu fel arall, o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
 - edrych ar archwiliadau perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd; a
 - chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.
- 25 Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn **Atodiad 1**.
- 26 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- adran 1: archwilio cyfrifon
 - adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
- 27 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am wir gost fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.
- 28 Yn olaf, mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd gennyf yng Nghynllun Archwilio 2017 a sut yr ymdriniwyd â hwy trwy'r archwiliad.

¹ [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2004](#)

Adran 1: archwilio cyfrifon

- 29 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd. Mae'r datganiadau hyn yn fodd i'r sefydliad ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a cholledion gweithredol net cydnabyddedig, a'i lif arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 30 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn briodol;
 - a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel rheol) yn gyson â hwy;
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.
- 31 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol.

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau at nifer o faterion

Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd o bwys

- 32 Daeth y datganiadau ariannol drafft am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 i law ar 28 Ebrill 2017, sydd o fewn y dyddiad cau y cytunwyd arno. Roedd y papurau gwaith wedi'u paratoi i safon uchel.
- 33 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2017. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb a sylwadau ar y prif fater a nodwyd.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Dychwelyd rhwymedigaethau	Nododd ein harchwiliad fod croniadau, gwerth £3 miliwn, a ddychwelwyd o'r flwyddyn flaenorol wedi'u nodi'n anghywir fel incwm arall yn y datganiadau ariannol, yn hytrach na childroi'r swm o'r categorïau gwariant gwreiddiol. Trafodwyd y mater hwn â'r Cyfarwyddwr Cyllid a chytunwyd y dylid dychwelyd y symiau hyn i'r man lle y cofnodwyd y rhwymedigaeth wreiddiol yn y datganiadau ariannol. Proseswyd addasiad i gywiro'r gwall hwn.

- 34 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, bûm hefyd yn adolygu'r datganiad Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol gwrthbartïon yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2017 a bod y datganiad wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 35 Disgwylir y bydd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2017.

Nid oedd fy ngwaith wedi nodi gwendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

- 36 Rwyf wedi adolygu rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd, yr oeddwn o'r farn eu bod yn berthnasol i'r archwiliad, i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Fodd bynnag, nid oeddwn wedi eu hystyried er mwyn mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol. Nid oedd yr adolygiad wedi nodi diffygion arwyddocaol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 37 Mae'n ofynnol yn statudol i mi fy modloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith dan sylw wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol a'u cyfraniad o ran mantoli'r gyllideb;

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd trwy fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr asesiad strwythuredig y llynedd;
 - asesu'r defnydd o baru data fel rhan o'r Fenter Twyll Cenedlaethol;
 - gwaith penodol ar ddefnyddio adnoddau yn y gwasanaethau radioleg, y gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, cynllunio i ryddhau cleifion ac archwiliad lleol o'r trefniadau ar gyfer sicrhau gwasanaethau meddygon ymgynghorol y GIG;
 - adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau allanol.
- 38 Rwyf hefyd wedi archwilio perfformiad trwy archwilio'r trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, ynghyd â'r trefniadau cydweithio rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 39 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith uchod o dan y penawdau canlynol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd record resymol o gyflawni arbedion cyson, mae wedi cryfhau trefniadau monitro ac wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol i fantoli'r gyllideb am y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17

- 40 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, bu fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2017 yn ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Rwyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol yng nghyswllt rheolaeth ariannol. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu cynlluniau ariannol cytbwys, wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r cynlluniau arbed a nodwyd ganddo ac mae'n debygol o gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2017-18

- 41 Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael dyraniad arian referniw gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi'r adnoddau iddo dalu am wasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn lleol a thrwy gontract ar gyfer poblogaeth ei ardal. Mae'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynllun ariannol cytbwys am 2016-17 fel rhan o IMTP 2016-19. Dros gyfnod treigl o dair blynedd, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb statudol i wario arian o fewn terfynau ei ddyraniadau ariannol. Y rhaglen dair blynedd hyd 2016-17 oedd y prawf statudol cyntaf ar y gofyniad hwn.

- 42 Pennodd y Bwrdd Iechyd Gyllideb gytbwys gymeradwy ar gyfer 2017-18 fel rhan o IMTP dair blynedd 2017-2021. Yn y tymor hwy, mae strategaeth iechyd a gofal y Bwrdd Iechyd tan 2027 yn gosod y llwyfan ar gyfer datblygu a gweddnewid gwasanaethau gyda'r Cyngor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu model manwl o ofal a fydd yn llywio'r gwaith dyrannu adnoddau wrth symud ymlaen.
- 43 Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau arbed sy'n gymharol uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy yn gyffredinol. Er na chyflawnwyd yr holl arbedion mewn unrhyw flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwireddu'r disgwyliadau i gryn raddau ym mhob blwyddyn ond un (2013-14).
- 44 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2016-17, gan gyflawni arbedion gwerth £3.5 miliwn trwy'r cynlluniau arbed a nodwyd o gymharu â tharged o £4.6 miliwn a nodwyd yn yr IMTP. Hefyd, cyflawnodd ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb am y tair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17.
- 45 O ran 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn cyflawni'r holl arbedion a gynlluniwyd, gwerth £3.3 miliwn, ac mae'r gwir gyflawniad ym mis 7 yn £1.6 miliwn o gymharu â'r £1.8 miliwn (91%) a nodwyd erbyn y dyddiad hwn yn y cynllun. Mae'n disgwyl mantoli'r gyllideb am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 trwy gyflawni'r cynlluniau arbed; trwy leihau'r gwariant ar staff asiantaeth, gofal iechyd parhaus a gofal sylfaenol; a thrwy gynnal adolygiad pellach o gyfleoedd ar y fantolen.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'i ddull o gynllunio a chyflawni cynlluniau arbed ac mae'n cydnabod y bydd angen i arbedion gael eu seilio ar weddnewid gwasanaethau yn fwy strategol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol yn y dyfodol

- 46 Ym mis Tachwedd 2016, pennodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TG newydd dargedau arbed ar gyfer cynllun ariannol 2017-18. Seiliwyd y targedau ar ffigur a oedd hanner ffordd rhwng yr 1% a gyflawnwyd gan y GIG yn y gorffennol a'r 1.5% a oedd yn ofynnol yn ôl yr adroddiad diweddar gan y Sefydliad Iechyd². Pennwyd targed i bob cyfarwyddiaeth gyflawni arbedion o ryw 1.5%, ac eithrio yng nghyllidebau tâl gwasanaethau darparwyr, lle'r oedd gofyn iddynt arbed 0.75%. Rhannwyd manylion pellach ynghylch yr holl gynlluniau arbed â'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Medi 2017.
- 47 Mae'r broses cynllunio arbedion wedi'i hintegreiddio'n llwyr â phroses yr IMTP, ac felly, mae'r cynlluniau arbed yn cyd-fynd â'r risgiau a'r amcanion a nodwyd yn yr IMTP. Mae IMTP 2017-2020 yn amlinellu bwloch ariannu gwaelodol cynyddol a fydd yn gofyn cyflawni arbedion ychwanegol. Ar ben hynny, mae'r IMTP yn nodi y bydd cynlluniau arbed ar lefelau tebyg yn ofynnol bob blwyddyn tan 2019-2020 er mwyn sicrhau y gellir parhau i fantoli'r gyllideb. Tynnwyd cylch cynllunio arbedion 2018-19 ymlaen i fis Hydref 2017.

² Watt T a Roberts A, **The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019/20 and 2030/31**, Y Sefydliad Iechyd, Hydref 2016

48 Dylai gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar arbedion cyson ostwng y pwysau ar y gyllideb mewn blynyddoedd dilynol. Mae cyfran yr arbedion cyson yn 2017-18 yn 82%, i fyny o 70% yn y flwyddyn flaenorol. Dengys y cynnydd hwn fod y Bwrdd lechyd yn ceisio cyflawni newidiadau mwy gweddnewidiol a fydd yn gymorth â'i strategaeth hirdymor. Mae'r Bwrdd lechyd yn mabwysiadu dull asesiad risg Cymru gyfan sy'n ymgorffori graddau coch, ambr neu wyrdd. Cymhwysir y graddau yn gyson ar draws pob prosiect. Gwelsom fod y mwyafrif o'r cynlluniau yn rhai gwyrrdd ac nad oes dim cynlluniau coch. Ar sail ein gwybodaeth ynghylch cynlluniau a'r perfformiad yn ôl yr adroddiadau, gellir dod i'r casgliad rhesymol fod y graddau'n cael eu cymhwysu'n briodol.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi cryfhau'i system ar gyfer monitro arbedion ariannol yn effeithiol a bydd honno'n cael ei phrofi wrth i'r gwaith o gynllunio arbedion yn y dyfodol ddod yn fwy uchelgeisiol

49 Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau monitro gweithredol ar waith ar bob lefel o'r sefydliad ar sail ddyddiol, fisol a phob chwarter. Y prif fforwm gweithredol sy'n trafod risgiau o ran y cynlluniau arbed yw cyfarfod misol tîm Adolygu Cyflawniad y Cynllun Ariannol. Yn y cyfarfod hwn, mae'n ofynnol bod pob partner busnes yn rhoi diweddariad i'r Cyfarwyddwr Cyllid a TG ar gynnydd pob cynllun, gan gynnwys gradd y risg. Buom yn arsylwi ar y gwaith hwn yng nghyfarfod mis Hydref 2017. Roedd digon o amser i drafod cynlluniau ambr (nid oedd dim cynlluniau coch), i amlygu'r problemau ac i ystyried y camau unioni yr oedd angen eu cymryd. Mae gwaith craffu ar arbedion ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol yn digwydd yn y Grŵp Cyflawni a Pherfformiad.

50 Y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yw is-bwyllgor y Bwrdd sy'n craffu ar y cyllid a'r cynlluniau arbed. Er mwyn darparu haen ychwanegol o graffu, cyflwynodd y Bwrdd lechyd bapur i'r pwyllgor ym mis Medi 2017 a amlinellai newidiadau i'r broses cyflwyno adroddiadau. Roedd y papur yn cynnwys rhestr fanwl o'r cynnydd yn erbyn pob cynllun arbed i'w darparu ym mhob cyfarfod yn y dyfodol. Ym mhob cyfarfod, mae un o'r rheolwyr ardal cyffredinol (neu unigolyn cyfatebol) yn cyflwyno'i gynlluniau arbed ac yn ateb cwestiynau'r aelodau. Roedd y cyflwyniad cyntaf gan reolwyr o ardal y gogledd a'r gwasanaeth menywod a phlant. Bu i'r pwyllgor groesawu'r cyflwyniad, fel dull o graffu ar y cynlluniau arbed yn y meysydd hynny ac fel model ar gyfer craffu ar feysydd eraill yn y busnes.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion blaenorol ynghylch cynlluniau ac adroddiadau ariannol

51 Gwnaethom wyth argymhelliad ynghylch rheolaeth ariannol yn 2016. Mae pedwar argymhelliad wedi'u cwblhau bellach. Mae'r rhain yn ymwneud â gweithdrefnau cymeradwyo'r gyllideb; datblygu cynlluniau arbed; trefniadau ar gyfer stiwardiaeth a rheolaeth ariannol; a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni arbedion. Mae un argymhelliad, ynghylch diweddaru rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau

ariannol sefydlog wedi'i gwblhau yn rhannol; diweddarwyd y rheolau sefydlog ond mae'r gwaith o ddiweddarau'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn parhau o hyd.

- 52 Mae tri argymhelliad ar waith ond heb eu cwblhau eto. Mae'r rhain yn ymwneud â rhoi trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith yn y gyfarwyddiaeth gyllid; ail-flaenoriaethu'r gyllideb er mwyn iddi gyd-fynd yn well â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd; a chryfhau'r dystiolaeth fel bod ystyriaeth drylwyr yn cael ei rhoi i oblygiadau o ran y gweithlu, cyllid, ystadau a TGCh wrth ddatblygu'r cynlluniau cyflawni fel rhan o'r IMTP.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a llywodraethu yn gyffredinol gadarn a gwneir gwaith pellach i gefnogi cydnerthedd y sefydliad a chryfhau llywodraethu gwybodaeth

- 53 Aseswyd trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer llywodraethu a sicrwydd trwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth roi sylw i argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol a'r materion yr oedd angen eu gwella. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo cynllun tymor canolig integredig ac wedi cytuno ar Strategaeth Iechyd a Gofal hirdymor gyda Chyngor Sir Powys, er bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r cynlluniau sy'n sail iddi.

- 54 Mae llywodraeth Cymru wedi datgan yn bendant nad oes gofyniad bellach i gyflwyno cynlluniau cyflawni lleol yn IMTP 2017-20. Fodd bynnag, mae angen o hyd i sefydliadau cynllunio ar gyfer y gwasanaethau pwysig hyn ac adlewyrchu'r meysydd allweddol y bwriedir eu gwella yn eu cynlluniau tair blynedd. Yn dilyn archwiliad o broses ddatblygu'r IMTP, nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau fod angen gwella a chrisialu ymhellach y cynlluniau sy'n sail iddo. Ystyrir cryfhau datblygiad y cynlluniau fel rhan o'r broses i ddatblygu cynlluniau'r cyfarwyddiaethau ar gyfer 2018-19.
- 55 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o nifer da o raglenni newid sydd ar waith yn y sefydliadau y bydd cleifion o Bowys yn eu defnyddio. Mae'r cyfraniad hwn yn defnyddio adnoddau helaeth ar lefel uwch. Mae'r gwaith o gyfathrebu ynghylch cynlluniau'r Bwrdd Iechyd wedi gwella.
- 56 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen gyfalaf y cytunwyd arno ar gyfer 2017-18 sy'n rhestru'r prosiectau arfaethedig a chynigion am offer yn gysylltiedig â'r IMTP. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a chefnogi cynlluniau ailwampio helaeth yn Ysbyty Llandrindod a Phrosiect Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol Ysbyty Machynlleth.
- 57 Mae'r Bwrdd yn ailysgrifennu'i amcanion fel rhan o waith datblygu IMTP 2018-21 i gyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd a Gofal a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r bwriad bod yr IMTP yn gyfrwng i hyrwyddo'r Strategaeth

lechyd a Gofal. Mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n helaeth er mwyn llywio'r IMTP ond ni fydd ei grŵp ffurfiol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cyfarfod tan fis Ionawr 2018.

Mae gan y Bwrdd a'r pwyllgorau gylchoedd gorchwyl clir ac mae'r aelodau'n cyfrannu'n weithredol iddynt

- 58 Cymeradwywyd Rheolau Sefydlog diwygiedig a Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2017. Mae'r cynllun yn darparu mwy o fanylion i sicrhau nad oes dim amwysedd ynghylch rolau a chyfrifoldebau.
- 59 Sicrhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd fod holl gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau wedi cael eu hadolygu a bod hunanasesiadau wedi'u cyflawni. Mae'r Bwrdd a phob pwyllgor yn cadw ac yn adolygu cofnodion gweithredu ym mhob cyfarfod. Cytunir ar yr eitemau y mae angen eu huwchgysyfeirio at y Bwrdd ar ddiwedd pob cyfarfod. Paratowyd adroddiad blynyddol ar gyfer pob pwyllgor a chymeradwywyd y rhain gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017. Yr unig hepgoriad oedd rhaglenni gwaith y Bwrdd a phob pwyllgor ar gyfer 2017-18 nad oeddent ar gael ar eu ffurf derfynol tan fis Awst 2017 ymlaen. Er i ni dderbyn sicrwydd fod pob pwyllgor yn dilyn rhaglen waith ddrafft, mae'n bwysig penderfynu ar wedd derfynol y rhaglenni gwaith a'u cyhoeddi yn gynharach yn y flwyddyn.
- 60 Mae holl bapurau'r Bwrdd yn ddogfennau cyhoeddus bellach ac ar gael ar y rhyngwrwyd oni bai bod angen iddynt fod yn gyfrinachol. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau ar sesiynau pwyllgorau, sy'n gymorth o ran tryloywder. Mae'n bwysig adolygu'r dolenni rhyngwrwyd yn rheolaidd a'u cadw yn fyw. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu pob papur cyn ei gyhoeddi ar y rhyngwrwyd i sicrhau nad yw'n cynnwys gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
- 61 Trwy fynychu pwyllgorau ac adolygu agendâu a phapurau pwyllgorau, gwelsom fod y pwyllgorau'n gweithio'n dda.
- 62 Mae dau aelod annibynnol profiadol wedi symud ymlaen gan fod cyfnod eu swydd wedi dod i ben. Bu'r aelodau annibynnol newydd yn benodiadau cryf ac maent wedi ymgynefino'n gyflym, gan arwain at gyfnod pontio llwyddiannus. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn sesiynau datblygu rheolaidd gan ddilyn rhaglen sydd wedi'i threfnu ond sydd hefyd yn ymateb i ddigwyddiadau.
- 63 Mae'r rheolaeth fewnol wedi gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn. Mae gan archwilio mewnol raglen eang sy'n canolbwyntio ar feysydd risg ac ar fannau yr oedd pryder bod angen eu gwella. Er gwaetha'r gwaith sylweddol i wella sicrwydd yn y blynyddoedd diwethaf, roedd Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 yn cynnig "sicrwydd cyfyngedig" unwaith eto. Cydymffurfiodd y Bwrdd â'r gofynion o ran adroddiadau blynyddol. Gwnaed cynnydd da hefyd o ran cryfhau archwilio clinigol a gwasanaethau atal twyll, fel yr argymhellwyd yn yr asesiad strwythuredig y llynedd.

Mae gwaith yn parhau i gryfhau cydnherthedd a gallu'r sefydliad

- 64 Bu'r Bwrdd lechyd yn gweithio i adnewyddu'r model gweithredu a gyflwynwyd yn 2016. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gangen cyflawni gweithredol y Bwrdd lechyd yn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac lechyd Meddwl.
- 65 Her ddiweddar i'r Bwrdd lechyd fydd penodi rhywun yn lle'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol ac lechyd Meddwl a fydd yn ymuno â Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf ar ddiwedd 2017. Trefnwyd bod y Cyfarwyddwr Nyrsio presennol yn ysgwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau cymunedol, gwasanaethau menywod a phlant, iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Bydd y Prif Weithredwr yn arwain ar ofal sylfaenol gyda chymorth Cyfarwyddwr y Rhaglen Gofal Sylfaenol tra bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn darparu arweinyddiaeth glinigol. Penodwyd Cyfarwyddwr Nyrsio dros dro yn ddiweddar.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo fframwaith sicrwydd a rheoli risg, sy'n cael ei wreiddio bellach ar draws y sefydliad

- 66 Ym mis Ionawr 2017, cymeradwyodd y Bwrdd gyfres o ddogfennau sy'n sail i'w drefniadau llywodraethu, sef: y fframwaith rheoli risg; y fframwaith sicrwydd; a'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae fframweithiau sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth ar waith ers diwedd mis Mehefin 2017 a datblygwyd a chyflwynwyd rhaglen hapwiriol a hunanasesu. Hefyd, mae gwaith yn parhau ar gofrestrau risgiau pwyllgorau dynnu ynghyd y risgiau perthnasol i bwyllgorau unigol o'r gofrestr risgiau corfforaethol, y fframwaith sicrwydd a chofrestr risgiau pob cyfarwyddiaeth berthnasol.
- 67 Cryfhawyd y trefniadau isgyfeirio risgiau corfforaethol, fel yr awgrymodd y Pwyllgor Gweithredol. Bellach, maent yn cynnwys adolygiad gan y pwyllgor perthnasol cyn bod y Bwrdd yn eu cymeradwyo.
- 68 Er y gallai'r trefniadau hyn ymddangos yn fiwrocraidaidd ac er iddynt gymryd cryn amser i'w datblygu, bwriedir eu bod yn 'edau euraidd', fel bod risgiau lefel uchel sy'n dod i'r golwg mewn gwasanaethau yn amlwg ac yn gallu cael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd yn ôl yr angen. Mae Risg CR10, sef methiant gofal gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ystod oriau arferol a'r tu allan i oriau yn enghraifft o risg lefel uchel a uwchgyfeiriwyd i'r gofrestr risgiau corfforaethol ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y Shropshire Doctors' Co-operative (Shropdoc)³ yn wynebu heriau ariannol a chytunodd comisiynwyr y GIG ym Mhowys, Swydd Amwythig, Telford a Wrekin ar rywfaint o gymorth interim. Ymgysylltodd y Bwrdd yn llawn â'r trafodaethau a'r penderfyniadau er mwyn sicrhau parhad yn y gofal i gleifion lleol. Bydd archwilio mewnol yn adolygu'r camau sicrhau risg ar ddechrau 2018 i brofi pa mor dda y mae'r trefniadau'n gweithio yn ymarferol

³ Cwmni nid-er-elw yw Shropdoc sy'n gwasanaethu 600,000 o gleifion yn Mhowys, Swydd Amwythig, Telford a Wrekin.

Mae llywodraethu gwybodaeth yn faes risg, o ystyried yr adnoddau staff cyfyngedig a'r angen i roi Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE ar waith

- 69 Mae fy adroddiadau ar yr asesiadau strwythuredig yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi canolbwyntio ar ymdrechion parhaus y Bwrdd Iechyd i gryfhau trefniadau cyflawni a goruchwyllo llywodraethu gwybodaeth.
- 70 Roedd barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 yn codi pryderon ynghylch llywodraethu gwybodaeth a diogelwch TG, a dderbyniodd radd sicrwydd cyfyngedig ar y cyfan. Roedd hynny oherwydd sicrwydd cyfyngedig yr adolygiad llywodraethu Gwybodaeth a Chydnherthedd o ran trefniadau i allu integreiddio swyddogaethau TGCh y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Gwelwyd mewn adolygiad dilynol ynghylch adroddiad sicrwydd cyfyngedig Ansawdd Data 2015-16 fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth roi'r argymhellion ar waith, gan arwain at sicrwydd rhesymol.
- 71 Y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu sy'n goruchwyllo llywodraethu gwybodaeth ar ran y Bwrdd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn Arweinydd Gweithredol ar Lywodraethu Gwybodaeth ac yn uwch-berchennog risg gwybodaeth (SIRO). Mae hi'n rheoli'r tîm llywodraethu gwybodaeth sy'n dîm bach sy'n cael cymorth gan hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth yn y cyfarwyddiaethau.
- 72 Mae'r tîm llywodraethu gwybodaeth yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r GDPR. Mae polisiau a gweithdrefnau allweddol o ran llywodraethu gwybodaeth ar waith ac mae dyddiadau adolygu rhai o'r dogfennau wedi'u hymestyn tan fis Mai 2018, o ganlyniad i'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno'r GDPR.
- 73 Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol ar gyfer mis Medi 2017 yn tynnu sylw at y risg uchel ganlynol: CR8 Diffyg system TGCh gadarn a sefydlog. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw'r Arweinydd Gweithredol o ran TG a bu yn ei swydd trwy gydol 2017 gan ddod â rhywfaint o sefydlogrwydd i'r portffolio technoleg a rheoli gwybodaeth (IM&T) a oedd wedi newid deirgwaith yn ystod 2016.
- 74 Nid yw'n glir pa un a roddir digon o adnoddau i'r cydwasanaeth IM&T, a ddarperir gan y Cyngor, i gyflenwi gofynion y Bwrdd Iechyd. Ni chynhaliwyd arolygon o fodlonrwydd defnyddwyr yn ddiweddar, ac nid yw'r ddesg gymorth wedi llwyr gyrraedd ei tharged o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, gan gyflawni 80% ar hyn o bryd.
- 75 Gwnaed gwaith sylweddol i adnewyddu'r Gyd-strategaeth TGCh ac fe'i haliniwyd â'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru. Rhagwelir y bydd y strategaeth ddiwygiedig derfynol yn barod yn gynnar yn 2018. Rhoddir sylw i seiberddiogelwch yn y polisi diogelwch gwybodaeth a'r Gweithdrefnau Ymateb i Ddigwyddiadau TGCh.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a'r gwasanaethau a gomisiynir

- 76 Ym mis Medi 2017, cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith newydd i wella perfformiad. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi sicrhau'r Bwrdd yn gyffredinol ynghylch rheoli risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol a darparu gofal o safon i gleifion.
- 77 Bu'r Bwrdd lechyd yn cryfhau'r trefniadau comisiynu ers 2015 a chymeradwyodd fframwaith comisiynu strategol newydd ym mis Tachwedd 2016. Mae'r fframwaith yn disgrifio'r trefniadau sydd eu hangen i gynorthwyo comisiynu effeithiol. Y nod yw sicrhau bod y strategaeth, y bobl, y prosesau a'r strwythurau iawn ar waith yn y sefydliad; ynghyd â model sy'n adlewyrchu gwerthoedd a threfniadau GIG Cymru. Saif ochr yn ochr â'r fframwaith sicrwydd comisiynu sy'n fodd i adolygu pryderon ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad gwasanaethau a gomisiynir. Barnwyd mewn adroddiad archwilio blynyddol ym mis Mai 2017 fod sicrwydd rhesymol ynghylch effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol sydd ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu.
- 78 Defnyddir y fframwaith sicrwydd comisiynu mewn 14 o sefydliadau'r GIG sy'n cwmpasu pum economi iechyd yng Nghymru a Lloegr. Fel y nodwyd mewn adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a'r Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Hydref 2017, roedd tri darparwr yn Lloegr yn destun mesurau arbennig ac roedd dau ddarparwr ar lefel uwchgyfeirio 4 yn ôl y fframwaith. Mewn cyflwyniadau yn ddiweddar ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy, amlygwyd bod y mesurau arbennig wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2016 ond bod pryder yn parhau ynghylch y gwasanaethau a ddarperir ganddi. Mae'n bwysig bod y ddau bwylgor yn glir ynghylch yr agweddau gwahanol y maent yn canolbwyntio arnynt fel na ddyblygir ymdrechion ond y rhoddir sylw i'r elfennau sicrwydd allweddol.
- 79 Mae'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad, a'r Bwrdd, yn adolygu adroddiad perfformiad integredig ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiad integredig yn cwmpasu perfformiad gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd lechyd, a'r gwasanaethau a gomisiynir gan sefydliadau eraill. Roedd y cyflawniad yn erbyn y cynllun, a'r perfformiad yn erbyn y mesurau yn dda ar ddiwedd ail chwarter 2017-18, fel y nodwyd mewn adroddiad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2017. Mae sefyllfa gyfunol y chwe nod yn erbyn y mesurau ac yn erbyn y cynllun yn gadarnhaol. Nodwyd perfformiad cyfunol cadarnhaol yn erbyn y mesurau mewn naw allan o'r deg amcan strategol sydd â mesurau perfformiad cysylltiedig yn yr ail chwarter. Mae wyth o'r deuddeg amcan strategol mewn sefyllfa gyfunol gadarnhaol o ran eu cyflawniad yn erbyn y cynllun. Caiff meysydd nad ydynt yn cyrraedd y targedau eu trafod yn fanwl gan y Bwrdd a'r pwyllgorau.
- 80 Darparodd ardaloedd y de a'r gogledd gyflwyniadau manwl ar berfformiad gwasanaethau yn eu hardaloedd i'r Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yng nghyfarfodydd mis Chwefror 2017 a mis Mawrth 2017. Roedd gan yr aelodau o'r pwyllgor ddiddordeb yn y cyflwyniadau, gofynnwyd llawer o gwestiynau a chynigiwyd atebion boddhaol ynghylch perfformiad y gwasanaethau a ddarperir gan yr ysbytai cymunedol.

Mae gwaith wedi dechrau i nodi'r elfennau yng nghynlluniau cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n ymwneud â'r gweithlu, ac mae craffu systematig ar drefniadau rheoli'r gweithlu wedi arwain at welliannau yn rhai o fetrigau'r gweithlu

- 81 Mae cynllunio'r gweithlu yn cael sylw allweddol gan y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei adlewyrchu yn un o'r chwe nod strategol ac yn un o'r 12 amcan strategol. Mae'r cynlluniau gweithlu fel y nodwyd yn yr IMTP yn cael eu datblygu. Dengys y cynlluniau bod gofyn recriwtio mewn nifer o feysydd, yn amodol ar gymeradwyo'r achosion busnes, a bod gofyn datblygu hyfforddiant i gefnogi rhai cynlluniau cyflawni. Hefyd, mae adolygiadau ar waith ynghylch adnoddau presennol y gweithlu a chymysgedd sgiliau'r staff mewn rhai meysydd.
- 82 Mae archwilio mewnol yn cynnal adolygiadau ym maes rheoli'r gweithlu bob blwyddyn. Dywed yr adroddiad ynghylch cynllunio'r gweithlu ym mis Medi 2017 y gall y trefniadau gynnig sicrwydd rhesymol i'r Bwrdd Iechyd. Y prif risg sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd o hyd yw'r gallu i recriwtio gweithwyr i swyddi clinigol allweddol. Roedd gwaith yn parhau i wella recriwtio a chadw'r gweithlu ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r risg o ran recriwtio wedi'i chynnwys ar y gofrestr risgiau corfforaethol ac fe'i hadolygir yn gyson gan Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
- 83 Mae'n bwysig fod gan y Bwrdd Iechyd brosesau recriwtio effeithlon. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r amser a gymerir, ar gyfartaledd, i fynd trwy holl gamau'r broses recriwtio, gan ostwng o bron i 90 niwrnod yn 2013-14 i 65 niwrnod yn 2016-17, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. Mae Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn adolygu dulliau o gyflymu'r prosesau recriwtio ymhellach.
- 84 Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd yng nghyfradd trosiant y staff. Yn y 12 mis tan fis Hydref 2017, cododd y trosiant treigl i 11.55%, o gymharu â 9.21% yn y mis Hydref blaenorol. Er bod gan y Bwrdd Iechyd holiadur ymadael, clywsom fod rhai ymadawyr yn amharod i'w lenwi. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r trefniadau ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth gan staff sy'n gadael y sefydliad.
- 85 Yn yr un modd â sefydliadau eraill y GIG, mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar staff dros dro i lenwi swyddi gwag a bylchau staffio eraill. Caiff y gwariant ar staff asiantaeth ei fonitro fel rhan o'r adroddiad cyllid misol. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Uned Staff Dros Dro newydd sy'n cwmpasu staff nyrsio a staff meddygol, a disgwylir y bydd yn gwella'r trefniadau, er enghraifft, trwy greu cysylltiadau cryfach â llunio cylchrestrau. Mae archwilio mewnol yn cynnal adolygiad o'r Gwariant ar Asiantaethau ac Ymgynghoriaeth a chyhoeddir yr adroddiad yn 2018.
- 86 Mae nifer o feysydd rheoli'r gweithlu wedi dangos rhai gwelliannau yn ystod y flwyddyn gan ragori ar fyrddau iechyd eraill, ond ni chyflawnwyd targedau Llywodraeth Cymru. Y canlynol yw'r meysydd hyn: absenoldeb salwch; cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant statudol a gorfodol; a'r adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad (PADR).

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r Fenter Twyll Cenedlaethol (NFI) yn effeithiol i ganfod twyll a gordaliadau

- 87 Ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd yw'r NFI, sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n arf effeithiol dros ben o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau, ac mae'n helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau atal twyll a llygredd.
- 88 Cyflwynwyd data i ymarfer paru data cyfredol NFI gan y cyrff a oedd yn cymryd rhan ym mis Hydref 2016. Anfonwyd y canlyniadau at y cyrff hynny ym mis Ionawr 2017.
- 89 Mae pryder sylweddol nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI fel rhan o'i drefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'i barau data NFI yn ddiweddar ac wedi rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo'r gwaith hwn ym mis Ionawr 2018 ac ar ôl hynny, gan ganolbwyntio ar y nifer bach o barau â blaenoriaeth uchel yn gyntaf. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau'i fod yn adolygu'r parau y bydd yn eu derbyn yn y dyfodol ac yn ymchwilio iddynt yn brydlon lle y bydd angen.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad strwythuredig y llynedd

- 90 Gwnaed tri argymhelliad yn asesiad strwythuredig y llynedd yn ymwneud ag effeithiolrwydd a rheolaethau mewnol y bwrdd a'r pwyllgorau, ac un argymhelliad ynghylch rheoli risg. Cwblhawyd tri o'r argymhellion, sef: datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer archwilio clinigol; sefydlu gwasanaeth gwrth-dwyll cadarn a chynaliadwy; a rhoi trefniadau ar waith i sicrhau'r bwrdd. Mae gofyn gwneud rhagor o waith ar y pedwerydd argymhelliad, sef bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau yn adolygu'r traciwr argymhellion llawn bob blwyddyn o leiaf.
- 91 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i roi sylw i argymhellion asesiad strwythuredig 2016, ystyriom hefyd effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Rhoddodd Ysgrifennydd y Bwrdd gyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau ym mis Mai 2017 ynghylch y camau a gymerid i roi sylw i argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol, ac adroddiadau eithrio ynghylch argymhellion lle cafwyd ychydig iawn o gynnydd neu gynnydd araf. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cysylltu â gwasanaeth Archwilio a Sicrhau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ynghylch defnyddio'i gronfa ddata tracio argymhellion. Byddai hynny'n symleiddio mynediad at gyfleuster byw sy'n tracio cynnydd yn erbyn pob argymhelliad, ond nid yw'r dyddiad cyflwyno ar gael hyd yn hyn.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau y defnyddir adnoddau yn well mewn nifer o wasanaethau allweddol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd neu a gomisiynir gan ddarparwyr eraill

- 92 Cynhaliodd fy archwilwyr nifer o adolygiadau mewn gwahanol wasanaethau:
- Y Trefniadau ar gyfer Sicrhau Gwasanaethau Meddygon Ymgynghorol y GIG
 - Y Gwasanaethau Radioleg
 - Gwasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i Oriau
 - Cynllunio i Ryddhau Cleifion
 - Comisiynu Gwasanaethau Ambiwylans Brys
 - Cyd-drefniadau ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhoi sylw i'r risgiau sy'n cyd-fynd â'i drefniadau cymhleth ar gyfer sicrhau gwasanaethau dan arweiniad meddygon ymgynghorol, er bod rhagor o waith i'w wneud i sicrhau trefniadau contractio a chynllunio swyddi cadarn ar gyfer pob meddyg ymgynghorol sy'n gweithio gyda chleifion y Bwrdd

- 93 Ym mis Chwefror 2017, rhoddais adroddiad ar ganfyddiadau fy adolygiad o drefniadau contractio a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol. Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u crynhoi isod.
- 94 Mae trefniadau cynllunio swyddi ac arfarnu meddygon ymgynghorol a gyflogir yn uniongyrchol yn gweithio'n dda yn gyffredinol, er y gallai'r Bwrdd Iechyd egluro a safoni'i ddulliau ar draws y sefydliad i sicrhau bod pob meddyg ymgynghorol yn cael y canlynol:
- rhestr glir a chytunedig o'r gweithgareddau a'r deilliannau disgwylidig ar gyfer pob un o'i sesiynau;
 - adolygiad blynyddol o'i gynllun swydd a bod pob cynllun swydd wedi'i lofnodi gan yr holl bartïon perthnasol;
 - arfarniad cyfredol i gynorthwyo'n briodol â'r prosesau ailddilysu sy'n ofynnol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.
- 95 Mae cymhlethdod y trefniadau comisiynu cyfredol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan feddygon ymgynghorol a gyflogir yn bennaf gan gyrff iechyd eraill yn amlygu'r angen am drefniadau llywodraethu cadarnach.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwedd gliriach ar y trefniadau contractio gyda phrif gyflogwyr y meddygon ymgynghorol a ddarparodd 123 o wahanol wasanaethau i gleifion yn ardal y Bwrdd Iechyd;
 - derbyniodd y Cyfarwyddwr Meddygol dros dro sicrwydd fod yr holl feddygon ymgynghorol gwadd wedi bod trwy'r broses ailddilysu.

- 96 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dod i ddibynnu llai ar drefniadau ad hoc, uchel eu risg gyda meddygon ymgynghorol, ond nid yw'r gwasanaethau a ddarperir yn y ffordd hon bob amser yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu da:
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r trefniadau a ddefnyddir ganddo i gyflogi meddygon ymgynghorol trwy gyflogres, trwy eu cwmni eu hunain neu'n uniongyrchol trwy anfoneb, ac wedi lleihau'r nifer a gyflogir trwy'r dulliau hyn.
 - sefydlwyd y trefniadau hyn ar sail ad hoc yn y gorffennol pan nad oedd modd darparu gwasanaeth trwy ddulliau eraill. Er bod rhai o'r trefniadau wedi bod ar waith ers blyneddau heb ddim pryderon ynghylch ansawdd, eto maent yn rhoi bod i nifer o risgiau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd roi sylw iddynt.

Mae'r gwasanaethau radiograffeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn foddhaol yn gyffredinol, er bod heriau o ganlyniad i absenoldeb hirdymor pennaeth gwasanaeth a seilwaith TG bregus, ynghyd â chyfluoedd i gryfhau rheoli perfformiad

- 97 Mae radioleg yn un o wasanaethau diagnostig ac ymyriadol allweddol y GIG ac mae'n cefnogi'r ystod lawn o feysydd arbenigol mewn ysbytai aciwt, gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau radioleg pelydr-x plaen ac uwchsain (US). Darperir adroddiadau ar ddelweddau gan radiolegwyr sy'n gweithio i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru ac i ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gweithdrefnau delweddu a gweithdrefnau ymyriadol eraill, gan gynnwys tomograffeg gyfrifiadurol (CT) a delweddu atseiniol magnetig (MRI) gan ystod o ddarparwyr. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar y gwasanaethau delweddu radiograffeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd.
- 98 Roedd yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017, yn archwilio'r camau a gymerir gan fyrddau iechyd i ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau radioleg, a'r graddau y mae'r camau hyn yn darparu atebion cynaliadwy a chosteffeithiol i'r heriau amrywiol.
- 99 Canfu fy adolygiad fod lefelau bodlonrwydd cleifion yn uchel a bod mynediad da at wasanaethau pelydr-x ac uwchsain, er bod oedi o ran darparu adroddiadau ar ddelweddau.
- 100 Caiff atgyfeiriadau eu rheoli'n dda ac ni fu dim problemau o ran recriwtio staff gweithredol, er y gallai cyfran sylweddol o'r staff ymddeol yn y pum mlynedd nesaf.
- 101 Bwriedir diweddarau'r offer yn fuan, ond mae angen rhoi sylw i'r seilwaith gwybodaeth a monitro perfformiad fel rhan o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i weddnewid gwasanaethau diagnostig.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn gadarn ar y cyfan, ac mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod cleifion yn cael apwyntiadau prydlon. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau yn gysylltiedig â data perfformiad ac mae lle i wella cynlluniau strategol a chynlluniau'r gweithlu er mwyn ymdrin â risgiau sy'n bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth

- 102 Mae model y gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn amrywio ym Mhowys. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio Shropdoc i gyflenwi gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, gan ddarparu'r swyddogaeth derbyn galwadau, pob agwedd ar y broses brysbennu a'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sy'n darparu gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau i gleifion yn ardal Ystradgynlais neu yn Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais gyda Shropdoc yn derbyn y galwadau yn ardal Ystradgynlais. Nod yr adolygiad hwn oedd cael gwybod a yw'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau effeithiol a chydnerth.
- 103 Ym mis Ebrill 2017 rhoddais adroddiad ar ganfyddiadau fy adolygiad o'r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau ym Mhowys. Gwelais fod y gwasanaethau hyn yn cael eu llywodraethu'n gadarn yn gyffredinol, a bod cynlluniau strategol yn datblygu'n fwy manwl. Roedd trefniadau arwain clir ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau ar bob lefel ac yn ôl ei asesiad ei hun, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r safonau cenedlaethol. Roedd lle i wella trefniadau monitro perfformiad y gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau ar lefel y Bwrdd ac ar lefel pwyllgorau.
- 104 Nodais, yn yr adolygiad, fod y Bwrdd Iechyd yn gwario mwy ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau na'r rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG yng Nghymru a'i fod yn cyflawni gwaith i ddatblygu cynlluniau gweithlu mwy cydnerth ar gyfer y gwasanaeth.
- 105 Mae gan gleifion Powys fynediad cymharol dda at ofal sylfaenol yn ystod oriau arferol, ac mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn darparu apwyntiadau prydlon, ond nodais yn yr adolygiad fod problemau o ran ansawdd data ynghyd â chyfle i wella gwybodaeth sy'n cyfeirio cleifion at wasanaethau y tu allan i oriau.
- 106 Ers i mi gwblhau fy adolygiad o'r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, cododd nifer o bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol gwasanaeth y tu allan i oriau Shropdoc. Bu'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r Grwpiau Comisiynu Clinigol perthnasol yn Lloegr i reoli'r risgiau hyn a sicrhau parhad yn y gwasanaeth a gyflenwir. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwybod i'm staff am ddatblygiadau diweddar a'r cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol ac yr oedd hyn yn ddefnyddiol.

Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn bwriadu gwella cynlluniau i ryddhau cleifion mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, ond mae'r hyfforddiant i'r staff yn wael, ceir

cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad ac mae diffyg llwybrau ffurfiol i ryddhau cleifion yn rhwystro gwelliant

- 107 Roedd fy adolygiad o'r cynlluniau rhyddhau, a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2017, yn archwilio a oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn o ran rhyddhau cleifion o'i ysbytai cymunedol.
- 108 Gwelais fod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i gynllunio gwelliannau i gynlluniau rhyddhau cleifion, ac i lif cleifion, ond mae'r diffyg llwybrau rhyddhau ffurfiol yn rhwystro hyn.
- 109 Mae'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gefnogi cynlluniau rhyddhau yn gymharol brin, ac nid yw'r adnoddau hynny ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, er bod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau i wella mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol, roedd fy ngwaith yn amlygu diffyg hyfforddiant ar gynlluniau rhyddhau, a'r angen i wneud mwy er mwyn codi ymwybyddiaeth o bolisiau rhyddhau ymhlith y staff.
- 110 Mae llinellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu'n weithredol ar berfformiad cynlluniau rhyddhau, sy'n cynnwys partneriaid. Fodd bynnag, mae'r monitro perfformiad yn gysylltiedig â chynlluniau rhyddhau yn brin ac nid yw mesurau perfformiad allweddol wedi cael eu gwella eto i adlewyrchu gwaith i wella cynlluniau rhyddhau.

Mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i wneud rhai newidiadau pwysig i wasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid wrth i'r trefniadau aeddfedu

- 111 Canfu fy adolygiad o drefniadau comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys Cymru gyfan fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC) wedi annog rhai newidiadau pwysig, megis datblygu model CAREMORE®⁴. Fodd bynnag, nid yw strwythurau a rolau i sicrhau atebolrwydd am wasanaethau ambiwlans brys yn eglur. Gwelais fod lle i egluro rolau EASC, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwllans o safbwynt perfformiad, cyllid a moderneiddio gwaith y gwasanaethau ambiwlans brys. Er bod ffurfio EASC wedi helpu i sicrhau perchnogaeth Cymru gyfan o wasanaethau ambiwlans brys, gwelodd fy nhîm fod angen i EASC wneud mwy i annog y gwasanaeth i weddnewid. Yn ogystal, mae diffyg eglurder a phwrpas yn y strwythur is-grŵp sy'n sail i EASC, ac mae hynny'n cael effaith ar bresenoldeb staff y bwrdd iechyd a gallu'r is-grwpiau i wneud cyfraniad ystyrlon.
- 112 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae cyflymder byrddau iechyd wrth gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'w alluogi i weithio yn ôl y bwriad yn amrywio, ac nid yw'r model yn ystyried gweithgarwch rhanbarthol na thrawsffiniol. Nododd fy ngwaith fod parodrwydd cyffredinol ar ran Ymddiriedolaeth

⁴ Dull comisiynu 'wedi'i wneud yng Nghymru' yw model CAREMORE®. Mae'i nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) a'r byrddau iechyd i gydweithio i wella gwasanaethau ambiwlans, ond mae lefel perchnogaeth perfformiad ambiwlansiau brys a'r llwybr moderneiddio gan fyrddau iechyd yn amrywiol, gyda'r sylw pennaf ar gamau olaf y llwybr ambiwlans, sef trosglwyddo cleifion. Dywedais fod WAST yn ymateb yn briodol i gytundebau EASC, fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth a lefel dealltwriaeth y byrddau iechyd o'r gofynion a amlinellir yn CAREMORE® yn amrywio.

- 113 Canfu fy ngwaith fod trefniadau comisiynu'n sail i rai gwelliannau i wasanaethau ambiwlans brys. Mae cyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn helpu partneriaid i gyrraedd targedau perfformiad Llywodraeth Cymru gyda'r potensial i weld gwelliannau pellach yn sgil cynlluniau y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Bellach, mae newidiadau a gynllunnir i wasanaethau a monitro perfformiad partneriaid yn cael eu halinio fwyfwy â'r Llwybr Gofal Cleifion Ambiwylans (y cyfeirir ato fel y model pum cam) ond mae angen mwy o gysondeb ar draws byrddau iechyd ac mae'n rhy gynnar i ddweud a yw hyn yn cael effaith. Mae set lawer gwell ac ehangach o fesurau sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad trwy'r Dangosyddion Ansawdd Ambiwylans. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i benderfynu'n briodol ar ganlyniadau a phrofiadau cleifion sy'n derbyn gofal ambiwlans brys.

Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

- 114 Canfu fy adolygiad o drefniadau cydweithredol iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol gyda'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus fod cydweithrediad effeithiol yng nghyswllt gwaith gwella iechyd yn ddibynnol ar arweinyddiaeth gydsyniol, ond nid oedd hynny i'w weld bob tro. Yn y system iechyd cyhoeddus gyffredinol, mae ystod eang o bobl a sefydliadau'n cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a llesiant, ac at leihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Nid yw'r un sefydliad yn gyfan gwbl gyfrifol am gyflawni gwelliannau yn iechyd a llesiant y boblogaeth ond priodolir llwyddiant i drefniadau cydweithredu effeithiol.
- 115 Efallai nad yw'n ddymunol pennu un arweinydd system, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau perthynol y gwahanol randdeiliaid o fewn y system. Canfu fy ngwaith fod diffyg deialog ystyrion rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth), timau iechyd cyhoeddus lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall ac ni cheir fframwaith ffurfiol sy'n trafod pa waith a gyflawnir orau ar y cyd.
- 116 Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau effeithiol i wneud yn siŵr y sicrhewr gwerth am arian o'r adnoddau a ddyrennir i dimau iechyd cyhoeddus lleol. Ni chynhelir cyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i drafod sut y caiff adnoddau eu defnyddio i wella iechyd a llesiant ac a ydynt yn creu'r budd a fwriedir. Canfu fy ngwaith hefyd fod diffyg dulliau cadarn o ddyrannu neu newid adnoddau timau iechyd cyhoeddus lleol. Yn lle hynny, cynhelir trafodaethau ad hoc wrth i swyddi ddod yn wag.

- 117 Canfu fy ngwaith fod trefniadau ar waith i gefnogi cofrestrriad proffesiynol staff sy'n gweithio ar draws y timau lleol, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y defnyddir hynny i ddangos cymhwysedd proffesiynol a dilyniant gyrfa. Mae trefniadau newydd hefyd yn helpu i gryfhau prosesau arfarnu a chynllunio datblygiad personol ond mae angen gwneud rhagor o waith i asesu anghenion datblygu ar y cyd yn y timau iechyd cyhoeddus lleol.
- 118 Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oes dull safonedig o rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn yr oedd gwahanol gyfranwyr yn ei wneud ar raddfa leol a chenedlaethol, a chyfleu gwybodaeth i'r un partneriaid.
- 119 Nodais yr ymateb rheoli ar y cyd a chydweithredol i'm canfyddiadau a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Bwriadaf gynnal rhagor o waith yn 2018 i asesu'r camau a gymerwyd i roi sylw i'r pryderon a nodwyd uchod.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2017.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mai 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2017
Adroddiad ar yr Archwiliad Annibynnol o'r Gronfa Elusennol	Rhagfyr 2017
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Y Trefniadau ar gyfer Sicrhau Gwasanaethau Meddygon Ymgynghorol y GIG	Mawrth 2017
Gwasanaethau Radioleg	Ebrill 2017
Comisiynu Gwasanaethau Ambiwylans Brys	Ebrill 2017
Gwasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i Oriau	Ebrill 2017
Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol	Hydref 2017
Adolygiad o Gynllunio i Ryddhau Cleifion	Tachwedd 2017
Asesiad Strwythuredig 2017	Rhagfyr 2017
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2017	Mawrth 2017

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n parhau i fod ar waith

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn parhau i fod ar waith hefyd yn y Bwrdd Iechyd. Nodir y rhain yn y tabl canlynol, ynghyd â'r dyddiad cwblhau tybiedig.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau tybiedig
Adroddiad dilynol ar Gleifion Allanol	Chwefror 2018

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2017 y ffi archwilio arfaethedig o £265,955. Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith eto i'w wneud, yn unol â'r ffi a nodwyd yn y cynllun.

Atodiad 3

Risgiau archwilio arwyddocaol

Arddangosyn 4: risgiau archwilio arwyddocaol

Nodais y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol ar gyfer 2017 yng Nghynllun Archwilio 2017. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio arwyddocaol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"> • profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tuedd; • gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodiadau arwyddocaol nad ydynt yn rhan o'r busnes arferol. 	Y gwaith a gwblhawyd: <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu rheolaethau endidau; adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, dyfarniadau a phenderfyniadau a wnaed gan reolwyr; profi cofnodion dyddlyfrau; ac adolygu trafodiadau arwyddocaol anarferol. Y prif ganfyddiadau: <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw fy ngwaith archwilio wedi nodi tystiolaeth o reolwyr yn anwybyddu rheolaethau. Yn arbennig, nid yw canfyddiadau ein hadolygiad o reolaethau dyddlyfrau a'n profion ar gofnodion dyddlyfrau wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
Ym mhob endid, gwneir dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol ar ddiwedd y flwyddyn. Enghraifft o'r rhain sy'n ymwneud yn benodol â'r Bwrdd Iechyd yw hawliadau am ofal iechyd parhaus a gwariant ar ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol.	Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio'i waith profi ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd yn yr adroddiadau.	Y gwaith a gwblhawyd: <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi ein dealltwriaeth o brosesau a rheolaethau allweddol yn ystod y cylch trafodiadau; ac adolygu amcangyfrifon lle'r oedd hynny'n berthnasol, e.e. Dibrisio, Mynegrifo. Y prif ganfyddiadau:

Risg archwilio arwyddocaol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw fy ngwaith archwilio wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol yng nghyswllt y risg a nodwyd.
<p>Cydnabyddiaeth ariannol gweithwyr a rhwymedigaethau budd a threuliau wedi'u tanddatgan.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> yn cofnodi ein dealltwriaeth o'r prosesau a'r prif reolaethau dros y cylch trafodiadau; edrych yn fanwl ar y prif reolaethau i asesu pa un a yw'r rheolaethau hynny wedi'u cynllunio'n effeithiol; cysoni ffigur y gyflogres yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (a'r nodiadau ategol) â'r cyfrifyfr cyffredinol ac is-system y gyflogres; cynnal dadansoddiad o dueddiadau yn nata misol y gyflogres, er mwyn nodi amrywiadau anghyffredin y gall fod angen gweithdrefnau archwilio ychwanegol ar eu cyfer; adolygu datgeliadau pensiwn a chytuno ar dystiolaeth sylfaenol ynghylch cyflawnder a chywirdeb adolygu datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol, bandiau cyflog a pheccynnau ymadael uwch-reolwyr o ran cyflawnder a chywirdeb. 	<p>Y gwaith a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd edrych yn fanwl ar reolaethau a dadansoddi tueddiadau o ran yr honiad cyflawnder ynghylch Cydnabyddiaeth Ariannol Gweithwyr. <p>Y prif ganfyddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion arwyddocaol o ran y risg a nodwyd.
<p>Nid yw'r mesurau ailbriso yn gywir.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> adolygu'r rheolaethau ariannol mewnol sy'n ymwneud â phrisiadau eiddo, offer a chyfarpar; adolygu'r cofnodion cyfrifyddu ynghylch 	<p>Y gwaith a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi adolygu'r Ailbrisiadau, Mynegrifo ac Amhariadau yn y datganiadau ariannol. Rydym hefyd wedi

Risg archwilio arwyddocaol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
	<p>aillbrisiadau i sicrhau bod y rhain wedi'u hadlewyrchu'n llawn ac yn gywir yn y datganiadau ariannol.</p>	<p>edrych yn fanwl ar y maes risg.</p> <p>Y prif ganfyddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion arwyddocaol o ran y risg a nodwyd.
<p>Comisiynu gofal iechyd – Nid yw'r addasiadau i'r gwariant yn sgil amrywiant mewn gweithgareddau yn gywir.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> edrych yn fanwl ar y rheolaethau; rhoi prawf sylweddol ar wariant ar gontractau; cysoni credydwy, dyledwy, incwm a gwariant y GIG â'r fantolen; profi'r trafodiadau ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau bod croniadau wedi'u cwblhau rhoi prawf sylweddol ar groniadau. 	<p>Y gwaith a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi edrych yn fanwl ar yr wybodaeth ynghylch gofal iechyd eilaidd a phrofi gweithgaredd contractau ar gyfer awdurdodau yng Nghymru a Lloegr. <p>Y prif ganfyddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion arwyddocaol o ran y risg a nodwyd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru